

**GORCHYMYN SIR BENFRO (FFYRDD AMRYWIOL, PENFRO)
(TERFYN CYFLYMDER 20MYA) 2022
A HYSBYSIAD I DDARPARU NODWEDDION GOSTEGU TRAFFIG**

Rhoddir **HYSBYSIAD** drwy hyn fod Cyngor Sir Penfro yn cynnig gwneud Gorchymyn o dan Adrannau 84(1) a (2) a rhannau III o Atodlen 9 Deddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf"), effaith hyn fydd ymestyn y terfyn cyflymder presennol o 20mya 360 metr o fetrau ymhellach i'r de ar Grove Hill a chyflwyno terfyn cyflymder o 20mya ar yr A4139.

Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig, wrth arfer y pwerau a roddir gan Adran 90A o Ddeddf Priffyrdd 1980, ddarparu nodweddion gostegu traffig o fewn y parth fel y manylir yn Atodlen 2.

Mae'r manylion llawn wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn drafft y gellir, ynghyd â map sy'n dangos hyd y ffordd yr effeithir arni a'r nodweddion gostegu traffig a gynigir, eu harchwilio ar-lein yn

www.sir-benfro.gov.uk/rheoleiddio-traffig-ffyrdd

Os hoffech wrthwynebu'r cynigion uchod, neu wneud sylwadau arnynt, gan roi'r rhesymau dros wneud hyn, dylech chi naill ai llenwi'r ffurflen adborth ar-lein neu ysgrifennu at yr islofnodedig erbyn y 3^{ydd} diwrnod o Fawrth 2022. Dyfynnwch: PEM 20T/C

Dyddiedig y 9fed diwrnod hwn o Chwefror 2022

Darren Thomas
Pennaeth Seilwaith
Cyngor Sir Penfro

ATODLEN 1

Terfyn cyflymder 20mya

Ffordd	Hyd
Dosbarth III (C3141) Grove Hill	O bwynt 15 metr i'r gogledd o Grove Drive i bwynt 138 metr i'r de o Grove Way.
A4139, Orange Way	O bwynt sy'n 33 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â'r B4319 i bwynt sy'n 31 metr i'r gogledd-ddwyrain o Grove Hill.

ATODLEN 2

Nodweddion Gostegu Traffig

Cyf	Lleoliad	Math
	Dosbarth III (C3141) Grove Hill	
i)	Ar bwynt 166 o fetrau i'r de o'r gyffordd â Grove Drive.	System flaenoriaeth – rhoddir blaenoriaeth i'r lôn i'r de.
ii)	Ar bwynt 280 o fetrau i'r de o'r gyffordd â Grove Drive.	System flaenoriaeth – rhoddir blaenoriaeth i'r lôn i'r de.
iii)	Ar bwynt 60 metr o fetrau i'r de o'r gyffordd â Grove Drive.	Twmpath Ffordd 65mm O uchder am hyd o 3.7 metr (lled y ffordd gerbydau lawn)

Datganiad o'r Rhesymau

Mae'r cynnig yn cael ei hyrwyddo fel rhan o Gam 3 o'r Gwelliannau i Droedffyrdd ar yr C3141 – Grove Hill.



Ariennir y gwaith gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ac mae'n rhan o becyn o fesurau sy'n cael eu gweithredu yng nghyffiniau'r ysgol.



PEMBROKE VARIOUS ROADS, PROPOSED 20 MPH & TRAFFIC CALMING (Indicative Plan)

Map produced on: 31 January 2022

Scale (A3 Print)
1:2000



**GORCHYMYN SIR BENFRO (FFYRDD AMRYWIOL, PENFRO)
(TERFYN CYFLYMDER 20MYA) 2022**

Mae Cyngor Sir Penfro (y cyfeirir ato wedi hyn fel "y Cyngor") drwy arfer y pwerau a roddir iddo o dan Adran 84 o Ddeddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â rhan III Atodlen 9 y Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Ni chaiff unrhyw unigolyn yrru cerbyd modur yn gyflymach nag 20mya ar hyd y ffordd a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.
2. Caiff Atodlen 1 / Cyfeirnod 1.67.0 / Lleoliad Penfro – Grove Hill yn 'Gorchymyn Sir Benfro (Amrywiaeth o Ffyrdd) (Ffyrdd Cyfyngedig a Therfyn Cyflymder 30mya) 2017' ei diddymu mewn perthynas â hyd y ffordd a gynhwysir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.
3. Cyfeirir at y Gorchymyn hwn fel "Gorchymyn Sir Benfro (Ffyrdd Amrywiol, Penfro) (Terfyn Cyflymder 20mya) 2022 a daw i rym ar y **** __ diwrnod o **** Dwy Fil a Dau Ddeg Dau.

RHODDIR o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro ar y **— diwrnod hwn o ****, Dwy Fil a Dau Ddeg Dau.

GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR PENFRO

Ym mhresenoldeb:-

Llofnodydd Awdurdodedig

ATODLEN

Terfyn cyflymder 20mya

Ffordd	Hyd
Dosbarth III (C3141) Grove Hill	O bwynt 15 metr i'r gogledd o Grove Drive i bwynt 138 metr o fetrau i'r gogledd o Grove Way.
A4139, Orange Way	O bwynt sy'n 33 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â'r B4319 i bwynt sy'n 31 metr i'r gogledd-ddwyrain o Grove Hill.